

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Zoom **ar 2 Hydref 2023** am 7.45 pm (yn syth ar ôl cyfarfod y Cyngor llawn).

**PRESENNOL:-** Ei Theilyngdod y Maer, Cyng. Elin Walker Jones; Cyng. Gareth Parry (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones (Gadawodd am 8.20 pm), Cyng John Wyn Jones, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng Gareth Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. L. Toth (cyrhaeddodd 7.15 pm), Cyng John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos F Jones, (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig), Sioned Jones (Cyfieithydd) ac un Aelod o'r Cyhoedd.

**68/23 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Dylan Fernley a'r Cyng. Gwynant Roberts

**69/23 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim

**70/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim

**71/23 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**

*Dosbarthwyd yr Adroddiad cyn y cyfarfod.*

Roedd adroddiad Cyfarwyddwyr y Ddinas yn rhoi diweddariad ar gynnydd prosiectau'r Pwyllgor Asedau. Amlygodd yr adroddiad hefyd fod oedi wedi bod ar y rhaglen waith oedd i fod i gychwyn ar y parciau a'r caeau chwarae a'i bod wedi'i gohirio oherwydd ymrwymadau eraill a diffyg adnoddau ac y byddai'n cael ei gohirio yn awr tan ddechrau'r gwanwyn. Adroddwyd ymhellach bod gwaith ar y cyfnod adnewyddu presennol o'r Pier wedi profi peth oedi oherwydd tywydd garw a phroblemau cyflenwad ond ei fod bellach yn mynd rhagddo ac y dylai fod wedi'i orffen erbyn diwedd mis Hydref. Roedd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru, a oedd yn cynorthwyo gyda chynnal a chadw Coed Menai.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig.

**72/23 DARPARU DIWEDDARIAD AR Y POSIBILRWYDD O SEFYDLU CIC NEU GWMNI RHEOLI I'R PIER**

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod ymchwil helaeth a manwl wedi'i wneud i gyfreithlondeb a heriau sefydlu CIC i'r Pier. Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig y byddai'r cynnig i sefydlu menter gymdeithasol o'r fath lle mae'r Cyfarwyddwyr yn Aelodau o Gyngor y Ddinas a Ffrindiau Pier Garth yn creu anawsterau sylweddol i'r Aelodau hyn. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'n well pe na bai unrhyw Gyngorydd yn dal swyddi mewn menter gymdeithasol o'r fath.

**PENDERFYNWYD:** trefnu cyfarfod arbennig i drafod y mater hwn a gwahodd cynrychiolwyr o Ffrindiau Pier Garth i fod yn bresennol.

**73/23 CYMERADWYO PRYNU GOLEUADAU YCHWANEGOL AR GYFER Y PIER.**

Cynigiwyd prynu goleuadau ychwanegol i ymestyn y goleuadau presennol i ben draw'r Pier. Amcangyfrifwyd y byddai cost yr uwchraddio tua £5,000

**PENDERFYNWYD** : cymeradwyo prynu goleuadau ychwanegol ar gyfer y Pier.

**74/23 EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD O DAN Y DDEDDF CYRFF CYHOEDDUS (DERBYN I GYFARFODYDD 1960)**

Oherwydd natur sensitif yr eitem nesaf, cynigiwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD**: gwahardd y wasg a'r cyhoedd.

**75/23 TRAFOD PRYDLES GYDA NANTPORTH CIC.**

Derbyniwyd cynnig gan Nantporth CIC i newid geiriad Erthyglau Cymdeithasu y cwmni menter gymdeithasol, Bu'r Cyngor hefyd yn trafod ei gyfranogiad yn y CIC yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** : i ) derbyn y newid arfaethedig i'r Erthyglau Cymdeithasu ii) cymryd cyngor ar waredu cyfranddaliad y Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.55 p.m**

**CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR**